**CYNGOR BRO MACHNO**

**Cofnodion** cyfarfod 14 Medi, 2017 a gynhaliwyd yn Festri Salem am 7.30.

**Presennol:** Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Eifion Davies, Sian Anwyl Jones, Dewi Jones, Geraint Thomas, Claire Roberts, Colin Jones ac Eryl Owain.

Ymddiheuriad – Lyn McFadden

**Croeso** – croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**Ffarm Carrog** – estynnwyd croeso gan y Cadeirydd i Trystan Edwards a Dewi Davies o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i drafod dyfodol ffarm Carrog yng Nghwm Penmachno, a oedd wedi ei phrynu'n ddiweddar gan yr Ymddiriedolaeth. Roedd pryderon gan yr aelodau ynglŷn â chynlluniau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer dyfodol y ffarm. Cafwyd ar ddeall bod y tŷ a'r ffarm i'w gosod am dymor byr nes y bydd penderfyniad ar gynlluniau ar gyfer y ffarm.

Dywedodd y cynrycholwyr fod yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal cyfarfod yn Siloh, Cwm Penmachno, ynghyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, a bod tyrfa dda'n bresennol. O ran y pryder bod bwriad i droi rhai o ddolydd Carrog yn dir gwlyb, dywedwyd eu bod yn disgwyl adroddiad allanol ar ddyfodol y ffarm. Mynegwyd y farn gan yr aelodau y dylid gosod y ffarm fel uned gydag amodau na fyddai'n cyfyngu ar allu tenantiaid i wneud bywoliaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr am ddod i'r cyfarfod a gobeithio y byddent yn adrodd yn ôl cyn gwneud penderfyniad.

**Materion personol** – cyn symud ymlaen at waith cyngor, cydymdeimlodd y Cadeirydd efo Dewi Jones ac â theulu Dafydd Hughes. Bu tad Dewi â chysylltiad agos iawn â'r cyngor a bu Dafydd Hughes yn aelod ffyddlon am flynyddoedd lawer. Dangoswyd cydymdeimlad yn y modd arferol.

**Derbyniwyd cofnodion** cyfarfod o'r Cyngor ar 11 Mai, 2017 fel rhai cywir. (Claire Roberts yn cynnig, Colin Jones yn eilio)

**Elusen Bro Machno** – etholwyd Claire Roberts i gynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor Ymddiriedolwyr yr elusen.

**Toiledau** – nid yw Cyngor Sir Conwy wedi symud ymlaen i drosglwyddo'r toiledau i'r cyngor cymuned, felly hwy sy'n parhau yn gyfrifol am gynnal a chadw. Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu eto â'r cyngor sir ac â'r Cynghorydd Wyn Jones.

**Cwt Hers** – penderfynwyd bod angen atgyweiriadau i'r Cwt Hers ac y dylid holi am brisiau.

**Materion Ffyrdd** – lluniwyd rhestr o faterion sydd angen sylw: mae cyflwr ffordd Hafod y Rhedwydd wedi gwaethygu, coed yn tyfu o Bont Llan, angen ail osod arwydd arosfan bws ger Allt Pen y Bryn, angen llinellau gwyn ar ochr y ffordd ger maes parcio caffi *Conwy Falls.*

**Materion traffig** – ni chafwyd gwybodaeth bellach gan y Cyngor Sir ynglŷn â chyfyngiadau cyflymdra.

**Mast Ffôn** – cafwyd wybod nad yw cwmni *Vodafone* yn ystyried safleoedd eraill ar gyfer mast ffôn symudol, wedi iddynt dynnu'r cynllun gwreiddiol yn ôl yn dilyn gwrthwynebiad lleol. Penderfynwyd cysyllt eto â'r cwmni a chodi'r mater efo Guto Bebb, A.S.

**Cae Chwarae** – ni chafwyd ymateb i'r cais am drac rhedeg ar gyfer y cae chwarae.

**Materion Ariannol** – cadarnhawyd bod digon o gyllid wrth gefn ar gyfer gwariant y cyngor. Bydd cwmni newydd yn cymryd drosodd gan AON fel yswirwyr y Cyngor.